

---

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr esthetig sy'n cynnal micropigmentiad yn defnyddio teclyn neu gyfarpar llaw gan fynd ati i amlygu, cywiro a diffinio pryd a gwedd yr wyneb. Bydd yn rhaid ichi hefyd gynnal gwerthusiad ar ôl y driniaeth er mwyn gofalu bod eich gwaith chi'n gwella yn barhaus ac er mwyn gofalu am anghenion y cleient yn y dyfodol.

## Meini prawf perfformiad

### Rhaid i chi allu:

1. rhoi arferion ymgynghori, iechyd, diogelwch a glanweithdra ar waith drwy gydol y driniaeth
2. cytuno ar **amcanion y driniaeth** a thempled dyluniad gyda'r cleient
3. cytuno ar strategaeth rheoli poen gan ystyried lefel goddefedd y cleient, gan ddilyn gweithdrefnau cyfundrefnol
4. chwyddo a goleuo'r **man triniaeth**
5. dewis math a maint y **nodwydd**, llwytho a defnyddio'r **cyfarpar** yn unol â phrotocol y driniaeth a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
6. dewis a defnyddio'r **pigmentau** lliw yn unol ag amcanion y driniaeth
7. defnyddio **technegau triniaeth** a **technegau mewnosod** mewn ffordd a fydd yn creu'r **effeithiau** dymunol, gan ddilyn protocol y driniaeth
8. gwirio lles y cleient a monitro lefel adwaith y croen drwy gydol y driniaeth
9. addasu'r driniaeth i fodloni anghenion y cleient
10. rhoi'r cynllun gweithredu priodol ar waith pan fo adwaith niweidiol i'r driniaeth
11. cadarnhau bod yr **effeithiau** terfynol yn bodloni'r cynllun triniaeth ac anghenion y cleient
12. tynnu lluniau fel tystiolaeth o'r **man triniaeth** yn dilyn gweithdrefnau cyfundrefnol
13. cwblhau cofnodion y cleient a'u storio yn unol â'r ddeddfwriaeth data
14. defnyddio dulliau gwerthuso a gafodd eu cytuno fel rhan o brotocol y driniaeth
15. casglu a chofnodi'r wybodaeth o adborth y cleient, cofnodion y cleient a'ch arsylliadau eich hun
16. cynnig cyngor ac argymhellion ar lafar ac yn ysgrifenedig i'ch cleient ynghylch yr ôl-ofal ar ôl y driniaeth
17. cytuno ar unrhyw addasiadau ar gyfer triniaeth bellach gyda'r cleient a chofnodi deilliant eich gwerthusiad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### Mae angen i chi wybod a deall:

1. yr ymgynghoriad a'r gofynion iechyd, diogelwch a glanweithdra wrth gynnal triniaethau micropigmentiad 2. y rhesymau dros gytuno ar y templed dyluniad 3. y ffactorau sydd angen eu hystyried wrth lunio templed dyluniad 4. y dewisiadau ar gyfer rheoli poen a'r peryglon cysylltiedig posib 5. y gofynion a'r cyfyngiadau cyfreithiol ar gyfer canfod, cadw a defnyddio anesthetig lleol ym Mhrydain 6. pam fod angen ichi chwyddo a goleuo'r man triniaeth 7. y gwahanol fathau o gyfluniadau nodwyddau a thechnegau mewnosod er mwyn creu'r effeithiau dymunol 8. sut i ddewis, cymysgu a phrofi pigmentau lliw i ddwyn i ystyriaeth: 8.1 amcanion y driniaeth 8.2 **\*\*dosbarthiad croen\*\*** 8.3 **\*\*nodweddion croen\*\*** 9. mathau, fformiwleiddiadau, defnyddiau a chyfyngiadau pigmentau pan gân nhw eu cymysgu a'u gwanhau 10. gofynion diogelwch ar gyfer pigmentau gan gynnwys: 10.1 cofnodi'r casgliadau pigment gaiff eu defnyddio 10.2. storio 10.3 taflenni data deunyddiau 10.4 dyddiad dod i ben 11. egwyddorion damcaniaeth lliw yn gysylltiedig gyda dewis y pigment 12. sut mae pigmentau lliw yn newid drwy gydol y broses iachau ac wedi iachau 13. rhoi'r ddamcaniaeth lliw ar waith er mwyn: newid canlyniadau lliw annymunol wedi'r broses iachau 14. dewis, defnyddio a chynnal gwahanol driniaethau ac offer micropigmentiad 15. pam eich bod yn trin y croen i ofalu eich bod yn gosod pigment yn effeithiol 16. y gwahanol fathau o gyflyrau cyflwynedig sydd angen eu cyfeirio at wasanaeth meddygol cyn y driniaeth 17. y technegau triniaeth priodol er mwyn cyflawni'r dyfnder lliw a dosbarthiad pigment angenrheidiol 18. sut mae technegau triniaeth gwael yn effeithio ar y deilliant terfynol 19. y rhesymau dros addasu'r driniaeth i fodloni anghenion y cleient 20. **\*\*adweithiau niweidiol\*\*** posib a sut i fynd i'r afael â nhw 21. y gwahanol dechnegau o gael gwared ar bigment a'u cyfyngiadau 22. effeithiau triniaethau laser ar bigment yn y croen 23. pwysigrwydd cadarnhau'r effeithiau terfynol i fodloni'r cynllun triniaeth a boddhad y cleient 24. arwyddocâd cyfreithiol cyflwyno lluniau fel tystiolaeth o'r man triniaeth 25. yr **\*\*anatomi\*\*** a **\*\*ffisioleg\*\*** sy'n berthnasol i'r safon hon 26. y gwahanol fathau o gyflyrau tyfiant blew a sut maen nhw'n effeithio ar y driniaeth micropigmentiad 27. gofynion cyfreithiol ynghlwm â chwblhau a storio cofnodion cleientiaid 28. deilliannau disgwylidiedig y driniaeth yn dilyn triniaeth micropigmentiad 29. diben gweithgareddau gwerthuso 30. sut i gasglu, dadansoddi, crynhoi a chofnodi adborth gwerthuso mewn ffordd eglur a chryno 31. **\*\*cyngor ac argymhellion\*\*** yr ôl-ofal ar nwyddau a thriniaethau

---

## Cwmpas/Ystod

---

### Gwybodaeth Ychwanegol

Mae disgwyl y bydd yr unigolyn sy'n cynnal y safon hon eisoës yn meddu ar y sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau sydd wedi'u hadnabod yng nghanllaw triniaeth yr ymarferwr esthetig neu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol estheteg.

Mae disgwyl y bydd yr unigolyn eisoës yn medru dangos cymhwysedd yn pennu gwrtharwyddion perthynol (cyfyngol) ac absoliwt (ataliol) ar gyfer y safonau esthetig maen nhw'n eu cynnal.

Mae disgwyl y caiff y safon hon ei gweithredu ar y cyd ag SKABA1 – Cynnal arferion gwaith diogel, hylan ac effeithiol yn ystod triniaethau esthetig ac SKABA2 – Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau esthetig.

Dylid dangos tystiolaeth o'r eitemau sydd wedi'u rhestru o dan y maes/ystod yn unol â'r math penodol o driniaeth gaiff ei gynnal.

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**\*\*Amcanion y driniaeth\*\*** 1. diffinio nodweddion naturiol 2. creu nodweddion 3. cywiro nodweddion 4. gwella a chydbwyso nodweddion 5. cyflwyno lliw i'r croen **\*\* \*\* \*\*Man triniaeth\*\*** 1. gwefusau 2. aelïau gyda blew presennol 3. aelïau gyda blew rhannol 4. amrannau uchaf 5. amrannau isaf **\*\* \*\* \*\*Nodwydd\*\*** 1. gwastad 2. magnwm 3. cylch 4. pwynt sengl 5. goledol 6. meicro 7. arlliw-wyr a llinellwr 8. nano **\*\*Cyfarpar \*\*** 1. teclyn llaw 2. peiriant **\*\*Pigmentiadau\*\*** 1. organig 2. anorganig 3. gwanedydd pigment **\*\*Technegau mewnosod\*\*** 1. pwyntiliaeth 2. pendil 3. graddliwio 4. wyffurf 5. croeslinellu 6. ysgubiadau 7. strociau **\*\*Technegau triniaeth\*\*** 1. ymestyniad tair ffordd 2. dyfnder y nodwydd 3. cyflymder 4. pwysedd 5. ongl 6. dipio pigment 7. cynhaliwr garddwrn 8. ymddaliad a safle 9. pasïau triniaeth **\*\* \*\* \*\*Effeithiau\*\*** 1. aelïau strociau blew 2. aelïau graddliwiedig 3. aelïau strociau blew a graddliwiedig cyfunol 4. llinell o amgylch y llygaid 5. estyn blew amrannau 6. llinell o amgylch y wefus 7. cochni ar y wefus 8. graddliwio gwefus

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

**\*\*Dosbarthiad croen\*\*** 1. Graddfa Fitzpatrick 2. Llun-niwed Glogau **\*\*Nodweddion Croen\*\*** 1. math 2. lliw gwaelodol y croen 3. cyflyrau 4. anhwylderau 5. teimlad **\*\*Adweithiau niweidiol\*\*** 1. hyperemia 2. crafiad cornbilen 3. pigment yn mudo 4. pothellu 5. anesmwythder gormodol 6. oedema 7. cleisio 8. llosg danadl 9. pendro 10. llewygu 11. teimlad llosg 12. cyfog 13. anaffylaxis 14. poen 15. creithiau hypertroffig neu geloid

**\*\*Anatomi a ffisioleg\*\*** 1. strwythur a swyddogaethau systemau'r corff a'u cyd-ddibyniaeth ar ei gilydd 2. strwythur a swyddogaethau'r blew a chylchred tyfiant y blew 3. y gwahanol fathau o gyflyrau tyfiant blew 4. clefydau, anhwylderau a chyflyrau'r croen 5. proses heneiddio'r croen gan gynnwys effeithiau geneteg, ffordd o fyw a'r amgylchedd 6. proses iachau'r croen a chlwyfau 7. lleoliad a gweithrediad cyhyrau sy'n gyfrifol am ystumiau'r wyneb 8. y strwythurau wynebol ac anatomegol 9. diben a gweithrediad ffagosytiau a sut maen nhw'n effeithio ar y pigment

**\*\*\*\* \*\*Cyngor ac argymhellion\*\*** 1. hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau'r cleient a'r ymarferwr 2. cynnal triniaethau 3. disgwyliadau ar ôl y triniaethau ynghyd â graddfeydd amser cysylltiedig 4. cyfyngiadau a gwrth-weithrediadau 5. nwyddau a thriniaethau ychwanegol

## Geirfa

*\*Micropigmentiad* \*caiff ei alw hefyd yn golur lled-barhaol, colur parhaol, cosmetigau parhaol, micro-lafnu, graffeg derma neu datwio cosmetig. Caiff micropigmentiad ei ddefnyddio er mwyn creu effeithiau colur er mwyn amlygu'r aelïau, gwefusau a llygaid drwy broses dyddodi pigment ar haenau croenol uchaf y croen.

### Wyffurf

Techneg mewnosod gaiff ei defnyddio gyda thriniaeth micropigmentiad, lle caiff pigment ei osod mewn symudiad gorgyffyrddol cylchol.

### Pwyntiliaeth

Techneg mewnosod gaiff ei defnyddio gyda thriniaeth micropigmentiad lle gaiff arwyneb ei orchuddio gyda smotiau mân o bigment lliw er mwyn creu effaith graddliwiedig. Caiff ei ddefnyddio ar fannau fel y llinell amrannau isaf.

\* \*

## Dosbarthiad Croen

Mae modd pennu dosbarthiad croen yn ôl lefel y melanin yn y croen a chaiff ei fesur gan ddefnyddio graddfa rifiadol Fitzpatrick. Caiff graddfa Fitzpatrick ei chategoreiddio i dair graddfa, mae'r ffenoteip Uwchfioled yn pennu sensitifrwydd y croen i Uwchfioled, y ffototeip pigmentol sy'n pennu math lliw ethnig y croen ac yn olaf y lefel risg o gancr y croen. Caiff graddfa difrod-llun Glogau ei chategoreiddio i bedwar lefel ac mae difrifoldeb y difrod i'r croen yn pennu cynllun triniaeth esthetig harddwch. Caiff y ddau ddull eu hintegreiddio gyda thechnolegau a theclynnau newydd yn aml.

### Anesthetig lleol (asiant merwino)\* \*

Eli gaiff ei daenu ar hyd arwyneb y croen fel dull lleihau poen. Gallwch ei daenu cyn ac yn ystod y driniaeth.

## Protocol y driniaeth

Cynllun yw hwn, sy'n gosod protocol penodol yn ymwneud â theclynnau a thriniaethau, gan adnabod gwiriadau a phrofion cyn y driniaeth, y modd gaiff y driniaeth ei chynnal, newidynnau derbyniol, safleoedd â gaiff eu defnyddio, y deiliant disgwylidig a phryd dylid addasu neu roi'r gorau i'r driniaeth.

## Cysylltiadau â SGC eraill

SKABA1, 2, 3, 4, 5, 6, 8, 9, 10 and 11

SKABA7

Defnyddio technegau micropigmentiad er mwyn amlygu pryd a gwedd yr wyneb



Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	04 Maw 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Ion 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKABT30
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch
Cyfres/Set	Estheteg Harddwch
Geiriau Allweddol	micropigmentiad, pigmentiad, colur lled-barhaol, micro lafnu